


ACT 3: Ynys Bŷr



Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron * © Getmapping plc.
Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata.
Yn cynnwys data deilliannol Arolwg Ordnans. Rhif trwydded Arolwg Ordnans 100019741.

Graddfa'r map 1:19,000 @ A4
CB: EB:philipb LUC Location: 31/01/2023
Source: OS, FC, NRW

Safle'r Coed a'r Coetir a Chanllaw
ar Ddyluniad
Awdurdod Parc Cenedlaethol
Afodir Penfro



ACT 3 Lleoliad ac Arwynebedd Coetir Presennol

 ACT 3: Ynys Bŷr


 ACT Cyfagos


Coetir Presennol

Coetiroedd Hynafol

Coetir Cenedlaethol y Goedwig*

*Diffiniad y RhGG o goetir ydy
ardal ag arwynebedd o leiaf 0.5 hectar






Safle'r Coed a'r Coetir a Chanllaw
ar Ddylunlad
Awdurdod Parc Cenedlaethol
Afordir Penfro




ACT 3 Dynodiadau Cadwraeth Natur

- ACT 3: Ynys Bŷr
- ACT Cyfagos
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig
- Ardal Cadwraeth Arbennig
- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig



Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron * © Getmapping plc.
Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata.
Yn cynnwys data deillionol Arolwg Ordnans. Rhif trwydded Arolwg Ordnans 100019741.

CB: EB:philipb LUC Nature Designations 01/02/2023
Source: OS, NRW



Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2022
Yn cynnwys data Cadw ©

Graddfa'r map 1:19,000 @ A4
CB: EB:philipb LUC Heritage 31/01/2023
Source: OS, Cadw

Safle'r Coed a'r Coetir a Chanllaw
ar Ddyluniad
Awdurdod Parc Cenedlaethol
Afordir Penfro



ACT 3 Dynodiadau Amgylchedd Hanesyddol

- ACT 3: Ynys Bŷr
- ACT Cyfagos
- Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig
- Heneb Gofrestredig
- Ardal Gadwraeth



Disgrifiad o'r arwynebedd coetir presennol

Ynys yn y môr ydy'r Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon ac fe'i nodweddir gan dir amaeth, coetiroedd a chlogwyni isel o gwmpas mynachlog ganolog. Coetir ydy 8.5% o gyfanswm arwynebedd y tir, ac mae'r rhan fwyaf o hwnnw (72.5%) yn gollddail. Nodweddir rhan ogledd-ddwyreiniol yr ynys gan gymysgedd o blanhigfeydd collddail a chonifferaidd sy'n amgylchynu Abaty Ynys Bŷr. Mae'r coetir hwn yn cwmpasu cyfanswm o oddeutu 20 hectar. Ceir cynefinoedd prysgwydd ar bennau rhai o'r clogwyni. Caiff gweddill yr ynys ei rheoli fel tir amaeth, ac nid oes coed yn nherfynau'r caeau, felly mae cymeriad agored wedi'i greu.

Nodweddion dynodedig a phriodoleddau gwerthfawr yn yr ACT		
<i>Mae'r Canllaw hwn yn canolbwyntio ar sensitifrwydd a chyfleoedd ar gyfer creu coetiroedd mewn perthynas â chymeriad tirwedd. Dim ond rôl gynghorol all fod iddo wrth bwysu a mesur manteision posib creu coetiroedd o'u cymharu ag effeithiau posib ar gynefinoedd nad ydynt yn goetiroedd ac asedau treftadaeth ddiwylliannol, y dylid eu hystyried yn fwy manwl ar lefel safle. Gweler y prif adroddiad am ragor o fanylion.</i>		
Treftadaeth naturiol	ACA, AGA, SoDdGA GNG, GNL (yn cynnwys gwarchodfeydd Ymddiriedolaethau Natur /RSPB) RIGS, Coetiroedd hynafol	Mae dau SAC, sy'n cwmpasu 21.3 ha (8.7%) o'r ACT rhyngddynt. Mae SoDdGA Ynys Farged yn cwmpasu 10.4 ha (4.2%) o'r ACT. Mae RIGS yn cwmpasu 20.7 ha (8.5%) o'r ACT. Mae coetiroedd hynafol ar gyfanswm o 0.53ha.
Treftadaeth ddiwylliannol	Cofrestr Tirweddau Hanesyddol y Parc Cenedlaethol Henebion Cofrestredig, Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau Rhestredig a data CAH	Mae 28 o adeiladau rhestredig yn yr ACT. Mae Tair Heneb gofrestredig yn cwmpasu 0.34ha o'r ynys rhyngddynt. Ceir Ardal Gadwraeth dros ran ddwyreiniol yr ynys. Mae Priordy Ynys Bŷr yn Barc a Gardd Cofrestredig, sy'n cwmpasu 1.28 ha (0.52%) o'r ACT. Mae'r ACT yn cynnwys 144 o gofnodion CAH, sy'n cynnwys rhychwant o nodweddion archaeolegol a hanesyddol, gan gynnwys henebion cofrestredig a rhai heb eu dynodi, adeiladau hanesyddol sydd wedi'u rhestru a rhai sydd heb eu rhestru, a lleoliadau darganfyddiadau. Mae'r nodweddion hyn yn dyddio o gyfnod cynhanes i gyfnodau diweddar.

Sensitifrwydd y dirwedd i blannu coetir newydd	
Elfennau sensitif allweddol	■ Cymeriad graddfa-fach tirwedd yr ynys. ■ Cymeriad tir pori agored y dirwedd, gyda therfynau heb goed. ■ Cynefinoedd glaswelltir agored sy'n cynnal amrywiaeth o rywogaethau, e.e. adar sy'n nythu ar y ddaear megis yr ehedydd (sy'n crynhoi yng ngorllewin yr ynys) neu rywogaethau sy'n fforio mewn glaswelltir megis y frân goesgoch. ■ Cynefinoedd a rhywogaethau arfordirol pwysig, yn cynnwys nythfeydd adar y môr ar y clogwyni. Mae Ynys Farged a leolir ar ymyl orllewinol yr ACT yn SoDdGA ac yn Warchodfa Ymddiriedolaeth Natur. ■ Olion archaeolegol a hanesyddol o bwysigrwydd cenedlaethol, yn cynnwys priordy canoloesol yr ynys a photensial treftadaeth y parth rhynglanw. Mae henebion cofrestredig wedi'u lleoli ar hyd yr arfordir ac maent yn cynnwys ogofâu a Safle Mesolithig Ogof Golau Dydd. ■ Yr Ardal Gadwraeth sy'n cwmpasu'r fynachlog a rhan ddwyreiniol yr ynys ac yn cynnwys nifer o strwythurau rhestredig. Mae Parc a Gardd Cofrestredig Gradd II Priordy Ynys Bŷr wedi'u lleoli o fewn yr Ardal Gadwraeth. ■ Amlygrwydd gweledol yr ynys o'r tir mawr (yn cynnwys goleudy'r ynys) a golygfeydd hir ar draws y morlun sy'n ei hamgylchynu o'r ynys. ■ Y cymeriad tawel, agored a digysgod, gyda rhinweddau canfyddiadol y dylanwadir yn gryf arnynt gan amodau cyfnewidiol y morlun amgylchynol.
Trosolwg	Mae Ynys Bŷr yn dirwedd sy'n hynod sensitif i newid, gan gynnwys newid o ganlyniad i greu coetiroedd. Mae yma ardaloedd helaeth o gynefinoedd arfordirol sydd ag arwyddocâd cenedlaethol gan gynnwys clogwyni a llethrau arfor, twyni tywod a glannau creigiog a thywodlyd. Mae llawer o'r ynys yn werthfawr oherwydd ei holion archaeolegol sydd o bwysigrwydd cenedlaethol, gan gynnwys yr Ardal Gadwraeth sy'n cydnabod pwysigrwydd y fynachlog a'i hamgylchoedd. Mae'r ynys yn hynod sensitif i'r rhan fwyaf o weithgaredd creu coetiroedd gan y byddai hynny yn amharu ar y cymeriad agored nodedig a'r golygfeydd eang ar draws yr ynys tua'r môr.

	Mae rhai cyfleoedd ar gyfer sefydlu coetiroedd, gan gynnwys ehangu a mewnlenni'r ardal goediog bresennol yng ngogledd-ddwyrain yr ynys trwy blannu coetir a gwrychoedd ar raddfa fach. Mae sensitifrwydd y dirwedd i goetiroedd cymysg o bob graddfa yn uchel ar gyfer yr ACT hon.				
Sgoriau Sensitifrwydd Tirwedd					
Coetiroedd llydanddail ar raddfa fach (≤5ha)			Cymedrol		
Coetiroedd llydanddail ar raddfa fach-ganolig (>5-15ha)					Uchel
Coetiroedd llydanddail ar raddfa ganolig (>15-30ha)					Uchel
Coetiroedd llydanddail ar raddfa fawr (>30ha)					Uchel

Cyfleoedd ar gyfer gosod coed a choetiroedd yn y dyfodol o fewn yr ACT	
■	Gan mai bach o ran maint yw'r ACT (tua 217 hectar) ac oherwydd ei chymeriad agored nodedig, prin yw'r cyfleoedd ar gyfer creu coetiroedd.
■	Gellid defnyddio plannu coetir ar raddfa fach i ehangu a mewnlenni'r ardal goediog bresennol yng ngogledd-ddwyrain yr ynys, gan gynnwys meddalau ymylon y coetir.
■	Mae cyfleoedd ar gyfer ailstrwythuro coetiroedd cymysg/conifferaidd presennol yng ngogledd-ddwyrain yr ynys trwy gynllunio hirdymor er mwyn gwella gwytnwch yn wyneb newid yn yr hinsawdd trwy gael mwy o amrywiaeth o ran oed a rhywogaethau.
■	Dylai unrhyw blannu o'r newydd ddilyn egwyddorion dylunio da fel y'u gosodir yn Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig.
■	Dylid dewis rhywogaethau cynhenid priodol sy'n gweddu i'r amodau lleol (e.e. hinsawdd, pridd, hydroleg, llystyfiant presennol) er mwyn sicrhau cymeriad clytwaith coetiroedd amrywiol.

Canllawiau strategol ar gyfer plannu coetiroedd / coed o'r newydd
Tirffurfiau a graddfa ■ Osgoi plannu a fyddai'n cuddio'r arfordir cymhleth â'i glogwyni garw a'i faeau. ■ Cynllunio coetiroedd i adlewyrchu tirffurf graddfa-fach yr ynys. Gorchudd tir (yn cynnwys cynefinoedd lled-naturiol) ■ Osgoi effeithiau niweidiol ar ardaloedd presennol o gyfeir lled-naturiol nad ydynt yn goetiroedd, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ac annog amrywiaeth o rywdeithiau cynefinoedd. Mae hynny'n cynnwys clogwyni a llethrau arfor, twyni tywod a glaswelltiroedd arfordirol, glannau creigiog a thywodlyd. Patrwm caeau ■ Cadw'r patrwm caeau amaethyddol rheolaidd a chymeriad clytwaith y coetiroedd, gan gynnwys rheolaeth briodol ar y gwrychoedd presennol. Osgoi cuddio terfynau o waliau cerrig sychion sy'n nodweddu'r ACT hon. Cymeriad coed a choetiroedd presennol ■ Cadw ac adfer coetiroedd a choed llydanddail lled-naturiol presennol yn y dirwedd. ■ Rheoli cynefinoedd prysgwydd ar bennau clogwyni er mwyn helpu i atal erydu ac i gyfyngu ar ddŵr ffo amaethyddol i'r dyfroedd arfordirol. ■ Rheoli a monitro rhywogaethau ymledol cynhenid neu niweidiol mewn coetiroedd ac effaith pathogenau, plâu ac afiechydon, e.e. <i>Phytophthora</i>, <i>Chalara</i> (clefyd coed ynn), dirywiad derw aciwt, tyllwr bedw efydd. Cymeriad hanesyddol ■ Osgoi cael effaith niweidiol, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog yr ardal, gan gynnwys Ardal Gadwraeth Ynys Bŷr a'r Parc a'r Ardd Rhestredig Gradd II. Cadw a gwella adeiladwaith ffisegol y priordy a'r gerddi fel nodweddion allweddol sy'n parhau o'r anheddiad crefyddol Canoloesol pwysig ar yr ynys. ■ Ceir nifer o henebion hefyd, gan gynnwys carneddi, ogofâu sy'n cynnwys olion cynhanesyddol a gweddillion Priordy

Ynys Bŷr. Dylid cadw'r nodweddion hyn yn agored, a chael gwared ar brysgwydd.

Cymeriad gweledol

- Cadw'r golygfeydd eang ar draws yr ynys tuag at y môr, yn enwedig o'r llwybrau arfordirol.
- Cadw'r golygfeydd allweddol tuag at yr Abaty a'r goleudy.
- Osgoi plannu coetiroedd yn y dirwedd amaethyddol a fyddai'n amharu ar ei chymeriad agored a'i golygfeydd eang.

Rhinweddau canfyddiadol a golygfaol

- Cadw cymeriad agored a digysgod yr ynys sydd â chysylltiad agos â'r môr. Lleoli coetiroedd newydd mewn modd nad yw'n amharu ar y gallu i fwynhau natur agored ac anghysbell y dirwedd.
- Ystyried effaith cronrus creu coetiroedd a phlannu coed, gan sicrhau nad yw hynny'n arwain at newid cymeriad y dirwedd ar yr ynys sy'n nodedig oherwydd ei bod yn agored.